

Minutes of the **Finance and General Purposes Committee Meeting** held at the Penrhyn Hall, Ffordd Gwynedd, on **Monday 26 November 2018** at 7.00pm

**PRESENT:** - His Worship the Mayor Councillor J Wynn Jones  
The Deputy Mayor, Councillor J Wyn Williams  
Councillors Ifan James (Vice-Chairman) Owen Hurcum G O Roberts  
Dylan Fearnley J M Martin Enid Parry  
D Hainge Keith Jones Luke Tugwell  
Medwyn Hughes Colin King H Wyn Jones

Officer: - Mr Ian Jones, Town Clerk

#### **140/18 APOLOGIES**

Apologies for absence were received from Councillors Les Day, Nigel Pickavance, Gareth Roberts, Salik Rahman, Mair Rowlands and Elin Walker Jones.

#### **141/18 DECLARATION OF FINANCIAL INTEREST OR PERSONAL CONNECTION**

None

#### **142/18 URGENT BUSINESS**

The Town Clerk reported that quotations had been received to undertake a Building Survey of the Town Clock.

He also asked if any Member should like to attend a workshop on the Wellbeing and Future Generations Act hosted by the Public Service Boards from North Wales. This would be held on 30 November at Bodelwyddan.

Councillors asked if a Public Notice could be drafted and circulated and signed by His Worship the Mayor to promote and support local shopping to help local businesses and retailers who were struggling in recent times.

#### **143/18 PIER UPDATE – CAPITAL PROJECT**

The Town Clerk reported on the operational progress with regard to the Pier head works. Details were given of trusses replaced and the removal of one of the shelters. It was reported that the Pier head was now in a safe condition with no further health and safety issues anticipated. A review of the budget situation was imminent and a decision would be required on any further works and future maintenance.

#### **144/18 PENRHYN ARMS WOODS**

The Town Clerk reported that following a survey of the Woodland area, several trees had been identified as being in poor or dangerous condition, furthermore some trees were presenting a danger to property near to Penrhyn Arms Woods.

The area in question was covered by a Tree Preservation Order and accordingly every individual tree that was to be worked upon needed to be photographed and documented which could take longer than anticipated. This work was within the budget and appropriate quotations had been requested.

#### **145/18 COMMUNITY ASSET TRANSFER – Sub Group Report**

Members received the report and recommendations of the Sub-Group which had met with Gwynedd Council Officers with regard to Beach Road Playing Field amongst others. The Sub-Group had identified a clear risk to the City Council should it decide to take over future maintenance of the playing field appertaining to a potential flood risk.

The Sub-Group also considered the potential car-park finance scheme offered by the County Council. It recommended that a 10% additional car parking levy was not implemented.

**RESOLVED:** that,

- i) Advice be sought either from Gwynedd Council Officers or preferably Natural Resources Wales on potential flooding risks at the Beach Road site, prior to any decision to take it over; and
- ii) The car park finance scheme be not taken up at this time.

**146/18 BOUNDARY COMMISSION FOR WALES - Gwynedd Review – Final Recommendations Report**

The Local Democracy and Boundary Commission for Wales had now submitted their final report on Electoral Arrangement for Gwynedd. It was noted that the proposals for Bangor were a much reduced number of Councillors from ten to six which was alarming when Gwynedd Council as a whole was only losing six members so that the majority of the hit was concentrated within the City area.

Councillors were unanimously opposed to this unfair situation and asked that every Member should make a comment to the Welsh Government Minister.

**RESOLVED:** that the Town Clerk make appropriate representations to the Welsh Government and individual Members also write on this matter.

**147/18 CHRISTMAS LIGHTS SWITCH-ON**

It was noted that there would be a switch-on of the Christmas lights around the Town Clock on Sunday 9 December 2018. Other lighting would be switched on incrementally as they were controlled by individual timer switches.

**148/18 REQUEST FOR FINANCIAL ASSISTANCE & FINANCIAL DONATIONS**

The Clerk reported that two completed applications for financial assistance had been received.

**RESOLVED** that this matter be deferred for consideration to the next meeting in January 2019.

**149/18 FINANCE**

The Committee received:-

- a) Invoices for Payment

It was noted that invoices as detailed on the schedule totalling £9,940.47 had been approved.

- b) Half-yearly (2nd Quarter) Accounts

**RESOLVED** that the payments be noted and the Half-yearly accounts be received.

**PART 2**

**150/18 EXCLUSION OF PRESS AND PUBLIC**

**RESOLVED:** That under the provisions of the Public Bodies (Admission to Meetings) Act 1960, members of the press and public be excluded from the meeting due to the confidential nature of their business to be transacted.

**NANTPORTH STADIUM**

The Town Clerk reported upon recent events regarding Nantporth Stadium. Members noted the situation and endorsed the actions of the Town Clerk. A further report and progress would be forthcoming when events took place and it was appropriate to do so.

---

The Meeting finished at 7.45 pm

Cofnodion y **Pwyllgor Cyllid ac Amcanion Cyffredinol** a gynhaliwyd yn Neuadd y Penrhyn, Ffordd Gwynedd, Nos Lun 26 o Dachwedd 2018 am 7.05 y.h.

**PRESENNOL :-**

Ei Deilyngdod y Maer y Cyngorydd J Wynn Jones		
Y Dirprwy Faer y Cyngorydd J Wyn Williams		
Cynghorwyr Ifan James (Is-Gadeirydd)	Owen Hurcum	G O Roberts
Dylan Fearnley	J M Martin	Enid Parry
D Hainge	Keith Jones	Luke Tugwell
Medwyn Hughes	Colin King	H Wyn Jones

Swyddog : Mr Ian Jones, Clerc y Dref/Swyddog Cyllid

#### 140/18 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr Les Day, Nigel Pickavance, Gareth Roberts, Salik Rahman, Mair Rowlands ac Elin Walker Jones.

#### 141/18 DATGANIAD O DDIDDORDEB ARIANNOL NEU GYSYLLTIAD PERSONOL

Dim.

#### 142/18 MATERION BRYD

Adroddodd Clerc y Dref fod prisiau wedi'u derbyn ar gyfer gwneud Arolwg Adeilad ar Gloc y Dref.

Gofynnodd hefyd a hoffai unrhyw un o'r Aelodau fynychu gweithdy ar y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o dan nawdd y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yng Ngogledd Cymru. Byddai hwn yn cael ei gynnal ar 30 Tachwedd ym Modelwyddan.

Gofynnodd y Cynghorwyr a ellid drafftio a dosbarthu Hysbysiad Cyhoeddus wedi'i lofnodi gan Ei Deilyngdod y Maer i hrwyddo a chefnogi siopa'n lleol er mwyn helpu busnesau a siopau lleol sydd wedi ei chael hi'n anodd yn ddiweddar.

#### 143/18 DIWEDDARIAD AM Y PIER – PROSIECT CYFALAF

Adroddodd Clerc y Dref ar y cynnydd gweithredol o safbwynt gwaith ar ben draw'r Pier. Rhoddwyd manylion am y cyplau newydd a roddwyd a thynnu un o'r cysgodfannau. Adroddwyd fod pen y Pier mewn cyflwr diogel erbyn hyn ac nad oedd unrhyw broblemau pellach o ran iechyd a diogelwch yn cael eu rhagweld. Roedd adolygiad o sefyllfa'r gyllideb ar fin digwydd a byddai angen penderfyniad ar unrhyw waith pellach a chynnal a chadw yn y dyfodol.

#### 144/18 COEDWIG PENRHYN ARMS

Yn dilyn arolwg o'r Coetir, adroddodd Clerc y Dref fod sawl coeden wedi cael eu canfod mewn cyflwr gwael neu beryglus, ac yn ogystal roedd rhai coed yn creu perygl i eiddo ger Coetir Penrhyn Arms.

Gan fod yr ardal dan sylw yn destun Gorchymyn Diogelu Coed, byddai angen tynnu llun a chofnodi pob coeden unigol oedd angen gwaith ami a gallai hyn gymryd yn hirach na'r disgwyl. Roedd y gwaith hwn o fewn y gyllideb ac roedd cais wedi'i wneud am brisiau priodol.

#### 145/18 TROSGLWYDDO ASED AU CYMUNEDOL – Adroddiad Is-Grŵp

Derbyniodd yr aelodau adroddiad ac argymhellion yr Is-Grŵp a oedd wedi cyfarfod Swyddogion Cyngor Gwynedd i drafod Cae Chwarae Ffordd y Traeth ymhlith pethau eraill. Roedd yr Is-Grŵp wedi gweld y byddai risg amlwg i Gyngor y Ddinas pe bai'n penderfynu cymryd drosodd cynnal a chadw'r cae chwarae oherwydd y posibilrwydd o berygl llifogydd.

Bu'r Is-Grŵp yn ystyried hefyd y cynllun cyllid meysydd parcio a gynigiwyd gan y Cyngor Sir. Roedd yn argymhell peidio â chodi tâl ychwanegol o 10% am barcio.

#### Penderfynwyd:

- i) Cael cyngor gan naill ai Swyddogion Cyngor Gwynedd neu o ddewis, Cyfoeth Naturiol Cymru ar y peryglon llifogydd posibl ar safle Ffordd y Traeth, cyn gwneud unrhyw benderfyniad i'w gymryd drosodd; a
- ii) Pheidio â derbyn y cynllun cyllid meysydd parcio y tro hwn.

## TUDALEN 33

### 146/18 COMISIWN FFINIAU CYMRU – Adolygiad Gwynedd – Adroddiad Argymhellion Terfynol

Erbyn hyn roedd Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru wedi cyflwyno'i adroddiad terfynol ar y Trefniadau Etholiadol i Wunedd. Nodwyd mai'r cynigion i Fangor oedd cryn ostyngiad yn nifer Cyngorwyr Gwynedd, o ddeg i chwech. Roedd hyn yn frawychus o ystyried mai dim ond chwe aelod roedd Cyngor Gwynedd i gyd yn colli felly roedd bron y cyfan o'r ergyd yn taro ardal y Ddinas.

Roedd y Cyngorwyr yn unfrydol yn gwrthwynebu'r sefyllfa annheg hon a gofynnwyd i bob Aelod anfon sylwadau i'r Gweinidog yn Llywodraeth Cymru.

**PENDERFYNWYD:** y byddai Clerc y Dref yn gwneud y sylwadau priodol i Lywodraeth Cymru a gofynnwyd i'r Aelodau ysgrifennu'n unigol ar y mater hwn hefyd.

### 147/18 TROI'R GOLEUADAU NADOLIG YMLAEN

Nodwyd y byddai'r goleuadau Nadolig yn cael eu goleuo o amgylch Cloc y Dref ddydd Sul 9 Rhagfyr 2018. Byddai'r goleuadau eraill yn cael eu goleuo fesul dipyn gan eu bod yn cael eu rheoli gan switshys amser unigol.

### 148/18 CEISIADAU AM GYMORTH ARIANNOL A RHODDION ARIANNOL

Adroddodd y Clerc fod dau gais am gymorth ariannol wedi'u derbyn.

**PENDERFYNWYD** gohirio'r eitem hon tan y cyfarfod nesaf ym mis Ionawr 2019.

### 149/18 MATERION CYLLID

Derbyniodd y Pwyllgor:-

a) Anfonebau i'w Talu

Nodwyd fod anfonebau fel ag y manylwyd arnynt ar y rhestr yn dod i gyfanswm o £9,940.47 wedi cael eu cymeradwyo.

b) Cyfrifon Hanner Blwyddyn (ail chwarter)

**PENDERFYNWYD** nodi'r taliadau a derbyn y Cyfrifon Hanner Blwyddyn.

## RHAN 2

### 150/18 GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD:** O dan ddarpariaethau Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960, dylai'r wasg a'r cyhoedd gael eu gwahardd o'r cyfarfod oherwydd natur gyfrinachol y materion i'w trafod.

### STADIWM NANTPORTH

Adroddodd Clerc y Dref ar ddigwyddiadau diweddar yn gysylltiedig â Stadiwm Nantporth. Nodwyd y sefyllfa gan yr Aelodau a chefnogwyr gweithredoedd Clerc y Dref. Byddai adroddiad pellach ar gynnydd yn dod pan fyddai'r pethau'n mynd yn eu blaenau a phan fyddai'n briodol gwneud hynny.

---

Daeth y cyfarfod i ben am 7.45 pm